WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad o'r amcan Llesiant: Amddiffyn a gwella'r amgylchedd naturiol – **Cyngor Sir y Fflint**

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1669A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir y Fflint yn rhan o waith i'w wneud yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, neu unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a thrydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Gwilym Bury, Bethan Smith a Jeremy Evans dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu'r cam ac wrth fynd ati i'w gyflawni, ac mae ganddo gyfleoedd eraill i ymgorffori'r pum ffordd o weithio yn y dyfodol.


Adroddiad cryno 4

Adroddiad manwl

Rhan Un: Canfyddiadau'r Archwiliad 7

Mae'r Cyngor wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu'r cam ac wrth fynd ati i'w gyflawni, ac mae ganddo gyfleoedd eraill i ymgorffori'r pum ffordd o weithio yn y dyfodol 7

Mae'r Cyngor yn ystyried anghenion a buddiannau hirdymor er mwyn amddiffyn a gwella'r amgylchedd naturiol yn Sir y Fflint ac mae'n cydnabod yr angen i hyrwyddo mwy o newid ymddygiad yn y sector preifat 7

Mae'r Cyngor yn deall effeithiau amgylcheddol diffyg gweithredu ac mae wedi ystyried sut y gall ei weithredoedd atal y problemau hyn rhag gwaethygu 8

Mae'r Cyngor wedi ystyried sut y mae'r cam yn cefnogi ei amcan llesiant o 'Gyngor Gwyrdd' a sut y mae'r cam yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff eraill 9

Mae gweithio ar y cyd yn elfen allweddol o sut y mae'r Cyngor yn gweithredu ac mae'n gweithio'n agos gyda phartneriaid, ond gellid cryfhau ymhellach y cysylltiadau trawsffiniol â chynghorau cyfagos yn Lloegr 10

Mae'r Cyngor wedi cynnwys rhanddeiliaid ond gallai ehangu ei weithgareddau ymgysylltu er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl gynhwysol 11

Rhan Dau: Ymateb y Cyngor 13

Atodiadau

Atodiad 1: Dangosyddion Cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio 14

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Pam y cynhaliwyd yr Archwiliad

1 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf), mae gofyniad statudol ar Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) i archwilio cyrff cyhoeddus er mwyn asesu i ba raddau y maent wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:

a bennu eu hamcanion llesiant, a

b chymryd camau i'w cyflawni.

2 Mae'r Ddeddf yn diffinio'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel gweithredu mewn modd: '…sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'.

3 Mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu adroddiad ar ei archwiliadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o leiaf blwyddyn cyn ethol pob Cynulliad. Mae'n rhaid cyhoeddi'r adroddiad cyntaf o'r fath erbyn 2020, cyn etholiad y Cynulliad yn 2021.

4 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cynnal archwiliadau ar draws 44 o gyrff sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf er mwyn llywio'i adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystod 2018-19 a 2019-20.

5 Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn wedi'u seilio ar waith maes a wnaethom yn ystod 2019 yng Nghyngor Sir y Fflint (y Cyngor). Yn rhan o hyn cynhaliwyd gweithdy cwmpasu gwaith maes gyda swyddogion o'r Cyngor, adolygiad o ddogfennau gwybodaeth a ddarparwyd gan y Cyngor a dogfennau eraill a gafwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru a phartneriaid allweddol eraill, a chyfweliadau â chynghorwyr, swyddogion a phartneriaid allweddol.

6 Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu ein canfyddiadau o'n harchwiliad o'r amcan llesiant i amddiffyn a gwella'r amgylchedd naturiol yn Sir y Fflint.

### Yr hyn a archwiliwyd

7 Fe wnaethom archwilio i ba raddau y mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth fynd ati i amddiffyn a gwella'r amgylchedd naturiol yn Sir y Fflint fel y gall pawb ddefnyddio eu hamgylchedd lleol i wella eu hiechyd a'u llesiant yn awr ac yn y dyfodol. Mae gan Gynllun y Cyngor ar gyfer 2019-2023 thema Werdd yn ei amcanion llesiant. Bydd y blaenoriaethau y bydd y Cyngor yn eu gweithredu i gyflawni'r thema yn cynnwys:

- Datblygiad cynaliadwy a Rheoli Amgylcheddol gan gynnwys gwaith ar: Newid yn yr hinsawdd; Gwasanaethau casglu a thrin fforddiadwy a

chynaliadwy ar gyfer gwastraff ailgylchadwy, compostadwy a gweddilliol; a'r Cynllun Datblygu Lleol; a

- chael gwasanaethau teithio diogel a chynaliadwy gan gynnwys gwaith ar: Drefniadau trafnidiaeth leol; Y rhwydwaith bysiau; Priffyrdd; a Theithio Llesol.

8 Mae Cynllun Lles 2017-2023 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint hefyd yn nodi ‘Yr Amgylchedd’ yn un o flaenoriaethau i ‘Amddiffyn a gwella'r amgylchedd naturiol yn Sir y Fflint fel bod pawb yn gallu defnyddio’u hamgylchedd lleol i wella’u hiechyd a'u lles nawr ac yn y dyfodol.’

9 Bydd y camau y bydd y Cyngor a’i bartneriaid yn eu cymryd i gyflawni’r amcan hwn yn cynnwys:

- datblygu mwy o gyfleoedd i allu manteisio ar y seilwaith gwyrdd megis ei gwneud hi’n haws arfer hawliau tramwy a gwneud gweithgareddau hamdden;
- amddiffyn a gwella'r amgylchedd; gwella amddiffynfeydd rhag llifogydd;
- lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd; a:
- y thema drawstoriadol o ymgysylltu Cymunedol ac addysg.

10 Fe wnaethom adolygu’r prosesau y mae'r Cyngor a'i bartneriaid ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn eu dilyn i ddatblygu a mynd ati i gyflawni'r amcan llesiant hwn. Mae ein harchwiliad wedi ein galluogi i asesu i ba raddau y mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy ('y cam') wrth fynd ati i gyflawni ei amcanion llesiant.

11 Er mwyn gweithredu yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy mae’n rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried y ‘ffyrdd o weithio’ canlynol:

Arddangosyn 1: Y ‘pum ffordd o weithio’

Mae’r tabl isod yn nodi’r ‘pum ffordd o weithio’ a ddiffinnir yn nogfen Llywodraeth Cymru **Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 Yr Hanfodion.**[1]

| Y Pum Ffordd o Weithio |
| --- |
| **Yr Hirdymor**<br>Pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr â’r angen i ddiogelu’r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd. |
| **Atal**<br>Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag codi neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. |
| **Integredig**<br>Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o’r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. |
| **Cydweithredol**<br>Gweithredu ar y cyd ag unrhyw berson arall (neu rannau gwahanol o’r corff ei hun) a allai helpu’r corff i gyflawni ei amcanion llesiant. |
| **Cynnwys**<br>Pwysigrwydd cynnwys pobl â buddiant mewn cyflawni’r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae’r corff yn ei wasanaethu. |

12 Canfu ein harchwiliad: Mae'r Cyngor wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu'r cam ac wrth fynd ati i'w gyflawni, ac mae ganddo gyfleoedd eraill i ymgorffori'r pum ffordd o weithio yn y dyfodol.

[1] **Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 Yr Hanfodion,** Llywodraeth Cymru, 2015.

# Adroddiad manwl

## Rhan Un: Canfyddiadau'r Archwiliad

### Mae'r Cyngor wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu'r cam ac wrth fynd ati i'w gyflawni, ac mae ganddo gyfleoedd eraill i ymgorffori'r pum ffordd o weithio yn y dyfodol

### Mae'r Cyngor yn ystyried anghenion a buddiannau hirdymor er mwyn amddiffyn a gwella'r amgylchedd naturiol yn Sir y Fflint ac mae'n cydnabod yr angen i hyrwyddo mwy o newid ymddygiad yn y sector preifat

#### Yr hyn y chwiliwyd amdani

13 Chwiliwyd am dystiolaeth o:

- ddealltwriaeth drylwyr o'r anghenion presennol a hirdymor a'r heriau a'r cyfleoedd cysylltiedig;
- cynllunio dros gyfnod priodol o amser;
- adnoddau wedi'u dyrannu i sicrhau buddion hirdymor; a
- threfniadau monitro ac adolygu priodol.

14 Llywiwyd ein harchwiliad hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer yr 'hirdymor' a nodwyd a ddefnyddiwyd yn rhan o'r archwiliad hwn.[2]

#### Yr hyn a ganfuwyd

15 Nodwyd y cryfderau canlynol:

- nod gweledigaeth y Cyngor ar gyfer yr amgylchedd naturiol yw sefydlu dulliau effeithiol o godi ymwybyddiaeth gymunedol o'r adnoddau naturiol sydd ar gael iddynt a'u hamddiffyn a'u gwella;
- mae'r Cyngor yn canolbwyntio ar wella seilwaith gwyrdd arfordirol gan gynnwys Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy a gwella blaengynllunio;
- mae Cyfoeth Naturiol Cymru, trwy weithio gyda chymorth partneriaid yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, yn arwain y gwaith o ddatblygu map seilwaith gwyrdd ar gyfer gogledd ddwyrain Cymru o asedau gwyrdd yn Sir y Fflint er mwyn helpu i gynllunio ar gyfer y tymor hir; ac

[2] Gweler Atodiad 1

- mae'r Cyngor yn casglu rhywfaint o ddata ansoddol a meintiol i fesur effeithiau tymor byr, canolig a hir ei waith.

16 Nodwyd y cyfleoedd canlynol:

- gallai'r Cyngor ddangos mewn modd mwy cynhwysfawr y manteision hirdymor y mae'r gwahanol brosiectau'n eu cyflawni a'r ffordd y maent yn integreiddio; a
- nod y Cynllun Datblygu Lleol yw cyflawni'r egwyddor hon, ond nid yw'n glir a yw'r cyhoedd a'r holl bartneriaid wedi derbyn yr angen am fwy o newid ymddygiad yn y tymor hir er mwyn cefnogi gweledigaeth hirdymor Sir y Fflint ar gyfer yr amgylchedd.

## Mae'r Cyngor yn deall effeithiau amgylcheddol diffyg gweithredu ac mae wedi ystyried sut y gall ei weithredoedd atal y problemau hyn rhag gwaethygu

### Yr hyn y chwiliwyd amdani

17 Chwiliwyd am dystiolaeth o:

- ddealltwriaeth drylwyr o natur y broblem a'r math o broblem y gallai'r cam helpu i'w atal rhag codi neu waethygu;
- adnoddau a ddyrannwyd i sicrhau y cyflawnir buddion ataliol; a
- threfniadau monitro ac adolygu effeithiolrwydd y cam wrth atal problemau rhag codi neu waethygu.

18 Llywiwyd ein harchwiliad hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'atal' a nodwyd gennym ac a ddefnyddiwyd yn rhan o'r archwiliad hwn.[3]

### Yr hyn a ganfuwyd

19 Nodwyd y cryfderau canlynol:

- mae'r Cyngor yn newid y ffordd y mae'n ymdrin â'i waith, e.e. mae'r rhaglen dreialu Seilwaith Gwyrdd (ardal Brychdyn) yn rhwydwaith a gynlluniwyd ac a gyflawnir yn strategol sy'n cynnwys yr ystod lawn o fannau gwyrdd. Mae Seilwaith Gwyrdd yn cynnwys parciau, llwybrau beicio, coedwigoedd, caeau, tir gwastraff, rhandiroedd, coed stryd, a thoeau gwyrdd.
- mae'r Dee Coastliners yn brosiect trawsffiniol sydd â'r nod o ysbrydoli cymunedau arfordirol yng Nghilgwri, Sir y Fflint a Sir Ddinbych ynghylch treftadaeth naturiol Aber Afon Dyfrdwy gyda phwyslais cryf ar wirfoddoli rheolaidd, ymgysylltu ag ysgolion, gwyddoniaeth dinasyddion a chyfleoedd dysgu.

[3] Gweler Atodiad 1

- mae gan y swyddogion a'r cynghorwyr y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth dda o'r angen i'r Cyngor ystyried effeithiau amgylcheddol ym mhob agwedd ar ei waith.
- mae'r Cyngor yn hyrwyddo nifer o fentrau er mwyn llwyddo i leihau carbon a chreu ynni adnewyddadwy.
- bu'r Cyngor yn gweithio gyda sefydliadau partner ar fentrau o ran mesurau llifogydd i gael cefnogaeth i'r agenda atal.

20 Nodwyd y cyfle canlynol:

- o ystyried manteision trawstoriadol cydnabyddedig atal problemau, gallai'r Cyngor ystyried manteision cost y cyfleoedd i fuddsoddi ymhellach.

## Mae'r Cyngor wedi ystyried sut y mae'r cam yn cefnogi ei amcan llesiant o 'Gyngor Gwyrdd' a sut y mae'r cam yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff eraill

### Yr hyn y chwiliwyd amdani

21 Chwiliwyd am dystiolaeth o ystyriaeth o:

- sut y gallai'r cam hwn gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol;
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant a blaenoriaethau ehangach y Cyngor; a
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.

22 Llywiwyd ein harchwiliad hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'integreiddio' a nodwyd gennym ac a ddefnyddiwyd yn rhan o'r archwiliad hwn.[4]

### Yr hyn a ganfuwyd

23 Nodwyd y cryfderau canlynol:

- mae'r Cyngor wedi ystyried sut y gallai'r cam gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol a sut y mae'n cyfrannu at ei amcanion llesiant a'i flaenoriaethau ehangach;
- caiff integreiddio asedau naturiol ei ystyried ym meysydd cynllunio, datblygu, rheoli tir a busnes;
- caiff amcanion eu hintegreiddio yn holl bortffolios y Cyngor, er enghraifft, ar atal llifogydd, tirweddau arfordirol, a mannau gwyrdd;

[4] Gweler Atodiad 1

- mae'r Cyngor yn nodi cysylltiadau â chynlluniau a strategaethau sefydliadau perthnasol eraill, e.e. Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru gyda'r gwaith ar Ddatganiadau Ardal; ac
- mae'r Cyngor wedi gweithio gyda sawl partner i ddatblygu mentrau ac mae wedi ystyried sut y mae'n cyfrannu at amcanion partneriaid, megis Partneriaeth Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru.

24 Nodwyd y cyfle canlynol i wella:

- gallai'r Cyngor a'i bartneriaid ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd ystyried modelu ymhellach effaith atal o ran manteision iechyd i'r cyhoedd a sut y gall yr amcanion llesiant effeithio ar amcanion partneriaid.

## Mae gweithio ar y cyd yn elfen allweddol o sut y mae'r Cyngor yn gweithredu ac mae'n gweithio'n agos gyda phartneriaid, ond gellid cryfhau ymhellach y cysylltiadau trawsffiniol â chynghorau cyfagos yn Lloegr

### Yr hyn y chwiliwyd amdani

25 Chwiliwyd am dystiolaeth bod y Cyngor:

- wedi ystyried sut y gallai weithio gydag eraill i gyflawni'r cam (i gyflawni ei amcanion llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion llesiant);
- yn cydweithredu'n effeithiol i gyflawni'r cam; ac
- yn monitro ac yn adolygu a yw'r cydweithredu yn ei helpu neu'n helpu ei randdeiliaid i gyflawni amcanion llesiant.

26 Llywiwyd ein harchwiliad hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'cydweithredu' a nodwyd gennym ac a ddefnyddiwyd yn rhan o'r archwiliad hwn.[5]

### Yr hyn a ganfuwyd

27 Nodwyd y cryfderau canlynol:

- mae'r Cyngor yn cydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid mewnol ac allanol ar fentrau, er enghraifft, trin gwastraff gweddilliol;
- mae aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cydweithio i ddylanwadu ar gymunedau a busnesau i hyrwyddo gwell cynllunio seilwaith gwyrdd;
- mae mentrau diweddarach wedi lleihau nifer yr eiddo sydd mewn perygl o lifogydd yn Sir y Fflint wrth i'r rhai mewn perygl fod wedi'u paratoi'n well ac yn fwy cydnerth;

[5] Gweler Atodiad 1

- mae'r Cyngor yn gweithio ar raglen drafnidiaeth uchelgeisiol gyda phartneriaid yng Nghynghrair Mersi Dyfrdwy, gan gynnwys cynghorau Lloegr; a
- gwaith gyda phartneriaid a thirfeddianwyr allweddol i hyrwyddo bioamrywiaeth a chael y cyhoedd i ymweld yn fwy â chefn gwlad Sir y Fflint.

28 Nodwyd y cyfle canlynol:

- er bod rhai enghreifftiau da o gydgysylltu trawsffiniol gan y Cyngor, megis gwaith atal llifogydd arfordirol ar Aber Afon Dyfrdwy, gallai'r Cyngor ystyried a ellid cryfhau'r cydweithio â chynghorau cyfagos yn Lloegr ymhellach, gan adeiladu ar waith Cynghrair Mersi Dyfrdwy.

## Mae'r Cyngor wedi cynnwys rhanddeiliaid ond gallai ehangu ei weithgareddau ymgysylltu er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl gynhwysol

### Yr hyn y chwiliwyd amdani

29 Chwiliwyd am dystiolaeth bod y Cyngor wedi:

- nodi pwy y mae angen eu cynnwys wrth gynllunio a chyflawni’r cam;
- cynnwys rhanddeiliaid allweddol mewn modd effeithiol wrth gynllunio a chyflawni’r cam;
- defnyddio canlyniadau’r ymgysylltu i lunio datblygiad a chyflawniad y cam; a
- cheisio dysgu gwersi a gwella’i ddull o ymgysylltu.

30 Llywiwyd ein harchwiliad hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer ‘cymryd rhan’ a nodwyd gennym ac a ddefnyddiwyd yn rhan o’r archwiliad hwn.[6]

### Yr hyn a ganfuwyd

31 Nodwyd y cryfderau canlynol:

- mae'r Cyngor yn mynd ati'n rhagweithiol i adolygu sut y mae’n annog pobl i gymryd rhan ac yn defnyddio hyn yn sail i ffyrdd o weithio yn y dyfodol. Er enghraifft, mae proses Asesu Effaith y Cyngor yn dangos ymgysylltiad cymunedol a datblygwyd y fforwm Rhanddeiliaid Allweddol ar gyfer gwaith ar y Cynllun Datblygu Lleol;
- datblygodd y Cyngor ymgynghoriad ar Deithio Llesol â thrigolion Sir y Fflint;
- siaradodd partneriaid yn gadarnhaol am y ffordd y mae'r Cyngor wedi'u cynnwys yn ystyrlon mewn mentrau fel Datganiad Ardal Gogledd Ddwyrain Cymru; ac

[6] Gweler Atodiad 1

- mae'r Cyngor yn llwyddo i gynyddu'r defnydd o wirfoddolwyr megis y gwaith ym Mharc Gwepra.

32 Nodwyd y cyfleoedd canlynol:

- mae'r Cyngor yn cymryd camau i ymgysylltu â grwpiau a chymunedau anodd eu cyrraedd a phobl eraill sy'n agored i niwed ond mae angen gwneud mwy o waith i gynnwys y grwpiau hyn a'r bobl hynny sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae'r grŵp hwn yn ystyried asesiadau o effaith y Cyngor, ond mae angen i'r Cyngor ei sicrhau ei hun ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau'n llawn o dan Ddeddf Cydraddoldebau 2010.
- gall defnyddio mwy o ddadansoddeg data helpu'r Cyngor i dargedu eu ymgysylltu yn fwy effeithiol.

# Rhan Dau: Ymateb y Cyngor

33 Ar ôl i'n gwaith maes ddod i ben, fe wnaethom gyflwyno ein canfyddiadau i'r Cyngor ym mis Hydref 2019 mewn gweithdy lle'r oedd swyddogion y Cyngor yn bresennol. Yn y gweithdy hwn dechreuodd y Cyngor ystyried ei ymateb i'n canfyddiadau. Caiff y canfyddiadau eu cyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Ionawr 2020 i gytuno ar safbwynt ac, ar sail y trafodaethau hyn, bydd y Cyngor yn datblygu camau gweithredu. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor wrth weithredu'r camau hyn ac i ba raddau y maent yn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn ein canfyddiadau. Mae'r tabl isod yn cynnwys ein cynigion o ran cyfleoedd datblygu y gallai'r Cyngor weithredu arnynt yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth fynd ati i gyflawni ei amcanion llesiant.

Arddangosyn 2: cyfleoedd datblygu

| Cyfleoedd datblygu |
| --- |
| Y Tymor Hir:<br>• gallai'r Cyngor ddangos mewn modd mwy cynhwysfawr y manteision hirdymor y mae'r gwahanol brosiectau'n eu cyflawni a'r ffordd y maent yn integreiddio;<br>• nod y Cynllun Datblygu Lleol yw cyflawni'r egwyddor hon, ond nid yw'n glir a yw'r cyhoedd a'r holl bartneriaid wedi derbyn yr angen am fwy o newid ymddygiad yn y tymor hir; ac<br>• mae angen annog y sector preifat (er enghraifft, tirfeddianwyr a datblygwyr preifat) i fabwysiadu arferion cadarnhaol er mwyn cefnogi gweledigaeth hirdymor Sir y Fflint ar gyfer yr amgylchedd. |
| Atal:<br>• o ystyried manteision trawstoriadol cydnabyddedig atal problemau, gallai'r Cyngor ystyried manteision cost y cyfleoedd i fuddsoddi ymhellach. |
| Integreiddio:<br>• gallai'r Cyngor a'i bartneriaid ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried modelu ymhellach effaith atal o ran manteision iechyd i'r cyhoedd a sut y gall yr amcanion llesiant effeithio ar amcanion partneriaid. |
| Cydweithredu:<br>• er bod rhai enghreifftiau da o gydgysylltu trawsffiniol gan y Cyngor, megis gwaith atal llifogydd arfordirol ar Aber Afon Dyfrdwy, gallai'r Cyngor ystyried a ellid cryfhau'r cydweithio â chynghorau cyfagos yn Lloegr ymhellach, gan adeiladu ar waith Cynghrair Mersi Dyfrdwy. |
| Cymryd rhan:<br>• mae'r Cyngor yn cymryd camau i ymgysylltu â grwpiau a chymunedau anodd eu cyrraedd a phobl eraill sy'n agored i niwed ond mae angen gwneud mwy o waith i gynnwys y grwpiau hyn a'r bobl hynny sydd â nodweddion gwarchodedig; a<br>• gall defnyddio mwy o ddadansoddeg data helpu'r Cyngor i dargedu eu ymgysylltu yn fwy effeithiol. |

# Atodiad 1

## Dangosyddion Cadarnhaol o’r Pum Ffordd o Weithio

### Arddangosyn 3: Dangosyddion Cadarnhaol o’r Pum Ffordd o Weithio

Mae'r tabl isod yn nodi ‘dangosyddion cadarnhaol’ ar gyfer pob un o'r pum ffordd o weithio y gwnaethom eu canfod.Nid ydym wedi defnyddio’r dangosyddion fel rhestr wirio. Dylid ystyried y rhain yn ddangosyddion. Fe wnaethant ein helpu i lunio casgliadau ynghylch i ba raddau y mae corff yn gweithredu yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau tuag at gyflawni ei amcanion llesiant.

| Beth fyddai’n dangos bod corff yn cymhwyso’r ffordd hirdymor o weithio yn llawn? |
| --- |
| • Ceir dealltwriaeth glir o ystyr ‘hirdymor’ yng nghyd-destun y Ddeddf.<br>• Mae wedi cynllunio’r cam i gyflawni’r amcan(ion) llesiant a chyfrannu at ei weledigaeth hirdymor.<br>• Mae wedi cynllunio’r cam i gyflawni buddion tymor byr a chanolig, sydd wedi’u cydbwyso â’r effaith yn y tymor hir (o fewn cyd-destun y prosiect).<br>• Mae wedi cynllunio’r cam ar sail dealltwriaeth soffistigedig o anghenion a phwysau presennol ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddi tueddiadau yn y dyfodol.<br>• O ganlyniad i hyn, ceir dealltwriaeth gynhwysfawr o’r risgiau a’r cyfleoedd presennol ac yn y dyfodol.<br>• Mae adnoddau wedi’u dyrannu i sicrhau y cyflawnir buddion hirdymor yn ogystal â rhai tymor byr.<br>• Ceir pwyslais ar gyflwyno canlyniadau, a nodir cerrig milltir/camau datblygu pan gaiff canlyniadau eu cyflawni yn y tymor hir.<br>• Mae’n agored i ffyrdd newydd o wneud pethau a allai helpu i gyflawni buddion yn y tymor hirach.<br>• Mae’n gwerthfawrogi gwybodaeth ac yn canlyn dulliau wedi’u seilio ar dystiolaeth. |
| **Beth fyddai’n dangos bod corff yn cymhwyso’r ffordd ataliol o weithio yn llawn?** |
| • Mae’r corff yn ceisio deall yr achosion sydd wrth wraidd problemau er mwyn gallu mynd i’r afael â chylchoedd negyddol a heriau ar draws cenedlaethau.<br>• Mae’r corff yn gweld heriau o safbwynt y system gyfan, gan adnabod a gwerthfawrogi’r buddion hirdymor y gallant eu cyflwyno i bobl a lleoedd.<br>• Mae’r corff yn dyrannu adnoddau i gamau ataliol sy’n debygol o gyfrannu at well canlyniadau, a gwell defnydd o adnoddau yn y tymor hir, hyd yn oed pan fo cyfyngiad posibl ar y gallu i ddiwallu rhai o’r anghenion tymor byr.<br>• Ceir trefniadau gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd sy’n cydnabod gwerth camau ataliol ac sy’n derbyn gostyngiadau tymor byr mewn perfformiad ac adnoddau wrth ganlyn y gwelliannau disgwyliedig i’r canlyniadau a’r defnydd o adnoddau. |

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn defnyddio dull 'integredig'? |
| --- |
| • Mae unigolion ar bob lefel yn deall eu cyfraniad i gyflawniad y weledigaeth a'r amcanion llesiant.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn deall yr hyn y mae gwahanol rannau'r sefydliad yn ei wneud ac yn ceisio cyfleoedd yn rhagweithiol i weithio ar draws ffiniau sefydliadol. Caiff hyn ei efelychu yn ei waith â chyrff cyhoeddus eraill.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn cydnabod y dibyniaethau ar draws y sefydliad i gyflawni'r uchelgais a'r amcanion.<br>• Ceir diwylliant agored o rannu gwybodaeth.<br>• Ceir dealltwriaeth ddatblygedig o sut y mae'r amcanion llesiant a'r camau i'w cyflawni yn effeithio ar gyrff eraill y sector cyhoeddus.<br>• Mae unigolion yn gweithio'n rhagweithiol ar draws ffiniau sefydliadol i gyflawni'r cyfraniad mwyaf posibl ar draws y nodau llesiant ac i leihau'r effeithiau negyddol gymaint â phosibl.<br>• Mae trefniadau llywodraethu, strwythurau a phrosesau yn cefnogi hyn, ac ymddygiad hefyd. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cydweithredu'n effeithiol?** |
| • Mae'r corff yn canolbwyntio ar le, cymuned a chanlyniadau yn hytrach na ffiniau sefydliadol.<br>• Mae gan y corff ddealltwriaeth o amcanion partneriaid a'u cyfrifoldebau, sy'n helpu i lywio gweithgareddau cydweithredol.<br>• Mae gan y corff berthynas gadarnhaol ac aeddfed â rhanddeiliaid, a chaiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Mae'r corff yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi cyfraniadau'r holl bartneriaid.<br>• Mae'r corff yn ceisio sefydlu prosesau a ffyrdd o weithio cyfrannol, pan fo hynny'n briodol. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cynnwys pobl yn effeithiol?** |
| • Meddu ar ddealltwriaeth o bwy sydd angen bod yn gysylltiedig a pham.<br>• Myfyrio ar ba mor dda yw'r ddealltwriaeth o anghenion a heriau y bobl hynny ar hyn o bryd.<br>• Gweithio mewn modd cydgynhyrchiol, gweithio gyda rhanddeiliaid i gynllunio a chyflawni.<br>• Ystyried barn rhanddeiliaid yn ffynhonnell wybodaeth hollbwysig a fydd yn helpu i gyflawni gwell canlyniadau.<br>• Sicrhau y cynrychiolir yr amrywiaeth lawn o randdeiliaid a'u bod yn gallu cymryd rhan.<br>• Bod â pherthynas aeddfed o ymddiriedaeth â'i randdeiliaid, lle ceir dialog parhaus a chaiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall effaith eu cyfraniad.<br>• Gofyn am adborth gan randdeiliaid allweddol a defnyddio hyn i helpu i ddysgu a gwella. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru